



Lynette Lovell
Prif Swyddog Addysg Dros Do
Interim Chief Education Officer

Atebwch os gwelwch yn dda /Please reply to:

Gwasanaeth Ysgolion / Schools Service
Cyngor Sir Powys / Powys County Council
Neuadd y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

Os yn galw gofynnwch am / If calling please ask for

Ffôn / Tel: 01597 826630

Ffacs / Fax:

Ffôn symudol / Mobile:

E-bost / Email: Lynette.Lovell@powys.gov.uk

Eich cyf / Your ref:

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date: 16 March 2020

Coronafeirws (Covid-19)

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Diogelwch y plant yn ein hysgolion yw prif bryder Cyngor Sir Powys ac fe wnawn barhau i weithredu yn ôl yr hyn sydd orau iddynt.

Mae pethau'n datblygu'n gyflym o ran y coronafeirws, ond rwyf am eich sicrhau chi ein bod yn gweithio'n agos ag ysgolion, lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i roi unrhyw fesurau angenrheidiol ar waith i ddiogelu disgyblion, staff ac ymwelwyr rhag y feirws.

Mae ysgol eich plentyn yn dilyn cyngor penodol gan Lywodraeth Cymru o ran rheoli coronafeirws mewn ysgolion.

Y cyngor cenedlaethol **heddiw (16 Mawrth 2020)** yw dylai pethau barhau fel arfer, ond rwyf am eich sicrhau chi ein bod yn monitro'r sefyllfa'n agos, yn lleol ac yn genedlaethol. Yn hynny o beth, rydym wrthi'n datblygu strategaeth i sicrhau fod cynlluniau ac adnoddau effeithiol yn eu lle i ymateb yn briodol i'r sefyllfa hon.

Er gwybodaeth, mae gwefannau lechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cynnwys llwyth o wybodaeth ar y coronafeirws.

Yn ogystal, mae gwefan lechyd Cyhoeddus Cymru'n cynnwys cyngor mwy penodol i rieni a gofalwyr, ac rwy'n eich annog chi i ddarllen hwn yn rheolaidd. Mae gwefan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn cynnwys cyngor cyffredinol ar deithio i ac o'r DU.



Yn y cyfamser, bydd eich cefnogaeth chi fel rhieni / gofalmwyr yn hanfodol i'n strategaeth i ymladd y coronafeirws. Rhaid ailadrodd y ffaith mai'r ffordd orau i osgoi'r haint yw defnyddio hylendid da.

Felly, dylech gyngori eich plentyn i olchi eu dwylo:

- cyn gadael y cartref
- wrth gyrraedd yr ysgol
- ar ôl defnyddio'r tŷ bach
- cyn paratoi bwyd
- ar ôl egwyl a gweithgareddau chwaraeon
- cyn bwyta unrhyw fwyd, gan gynnwys snacs
- cyn gadael yr ysgol
- wrth ddod nôl o'r ysgol

Dylech hefyd ddysgu eich plant i:

- osgoi cyffwrdd â'u llygaid, trwyn a'r geg â dwylo budr
- osgoi cyswllt agos â phobl sy'n sâl.

Beth i'w wneud os yw eich plentyn yn dangos symptomau'r Coronafeirws.

Dylai'r plentyn aros adref am 7 diwrnod os oes ganddynt naill ai:

- dymheredd uchel
- peswch parhaus newydd

Peidiwch mynd i feddygfa, fferyllfa nac ysbyty. Nid oes angen i chi ffonio 111 i ddweud eich bod yn aros adref.

Os oes rhaid i chi aros adref, dilynwch gyngor lechyd Cyhoeddus Cymru ar hunanynysu.

Ffoniwch 111 dim ond os:

- ydych yn teimlo na allwch ymdopi gyda'ch symptomau adref
- bydd eich cyflwr yn gwaethygu
- na fydd eich symptomau'n gwella ar ôl 7 diwrnod

Gallaf eich sicrhau chi bod yr awdurdod lleol yn cymryd unrhyw gamau posibl i ymateb i'r sefyllfa hon.

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk



L. Lovell

Lynette Lovell
Prif Swyddog Addysg Dros Do
Interim Chief Education Officer